

cysylltu: Y Lluoedd Arfog a Phobl Ifanc

Ffilm fer gan Headliners a Forces Watch, 2014

<http://www.forceswatch.net/engage-military-and-young-people>

Pam mae gan luoedd arfog y DU bolisi 'cysylltu â'r ifanc' a pham mae'r llywodraeth Brydeinig yn hybu 'ethos filwrol' o fewn addysg? Beth yw effaith y gweithgareddau milwrol sydd yn digwydd mewn ysgolion? Fe weithiodd ForcesWatch a Headliner's gyda grŵp o bobl ifanc yn Llundain i gynhyrchu'r ffilm fer hon sydd yn archwilio'r cwestiynau hyn. (<http://www.headliners.org/>)

Mae'r ffilm yn canolbwyntio ar weithgareddau mewn ysgolion, gan gynnwys cyflwyniadau gan y lluoedd arfog a'r lluoedd cadet, a'r polisi 'Ethos Filwrol mewn Ysgolion Gwladol yn Lloegr'. Mae'n edrych ar brofiadau a barn pobl ifanc ac yn gofyn cwestiynau ynglŷn â'r agenda tu cefn i'r polisi 'cysylltu â phobl ifanc' ac amharodrwydd yr Adran Addysg a'r Weinidogaeth Amddiffyn i drafod hyn gyda'r bobol ifanc eu hunain.

Gwybodaeth gefndirol a phwyntiau trafod

Mae'r lluoedd arfog yn ymwneud yn gynyddol ag addysg uwchradd, colegau a hyd yn oed ysgolion cynradd. Tra bod y Fyddin, y Llynges a'r Awyrlu wedi bod yn rhedeg gweithgareddau mewn ysgolion ers tro, fel rhan o raglen Cysylltu â'r Ifanc y Weinyddiaeth Amddiffyn, yn ddiweddar mae'r Adran Addysg wedi dechrau hyrwyddo 'ethos filwrol' mewn ysgolion gwladol yn Lloegr.

Mae Lluoedd Arfog y DU yn cynnal 11,000 o ymweliadau ag ysgolion a cholegau bob blwyddyn. Mae llawer mwy o ysgolion gwladol nag o ysgolion preifat yn derbyn ymweliad ac mewn rhai ardaloedd, mae pob ysgol yn derbyn ymweliad, yn aml sawl gwaith y flwyddyn. Mae ymweliadau yn cynnwys:

- gweithgareddau sy'n ymwneud â gyrfaedd (digwyddiadau gyrfaol, cyflwyniadau ac yn y blaen)
- deunyddiau sy'n ymwneud â'r maes llafur gyda ffocws milwrol
- datbylgiad personol y myfyrwyr (adeiladu tîm, arweinyddiaeth, technegau cyfweiliad)
- gweithgareddau corfforol
- cyfweiliadau ar gyfer cyrsiau Mewnwelediad (cyrsiau cyn-recriwtio yng ngwersylloedd y lluoedd arfog)
- sesiynau gyda staff
- ymweliadau â gwersylloedd ac amgueddfeydd milwrol
- profiad gwaith.

Dywed y WA nad ydynt yn recriwtio mewn ysgolion, gan nodi'n benodol: "ni chofrestrir unrhyw fyfyrwr neu fyfyrwraig yn ystod unrhyw ymweliad ag ysgol, ac ni wneir unrhyw ymrwymiad gan fyfyrwyr i gofrestri chwaith". Fodd bynnag, mae'n amlwg o'u polisiâu eu hunain fod recriwtio hirdymor yn un o ganlyniadau ymweliadau o'r fath, ynghyd â chodi 'ymwybyddiaeth bositif' o'r lluoedd arfog.

Mae rhaglen Ethos Filwrol mewn Ysgolion yr Adran Addysg yn cynnwys:

- Troi Milwyr yn Athrawon
- 'darpariaeth amgen gydag ethos filwrol ar gyfer myfyrwyr sydd yn debygol o fethu'
- ehangu'r Cyfunlu Cadet mewn ysgolion gwladol
- datbylgu ysgolion rhydd ac academiâu wedi eu noddi gan y fyddin.

Er mai ond i ysgolion gwladol yn Lloegr y mae'r rhaglen Ethos Filwrol mewn Ysgolion yn berthnasol yn ei chyfanrwydd, mae rhai o'i phrif elfennau, megis y Cyfunlu Cadet mewn ysgolion gwladol, a 'darpariaeth amgen gydag ethos filwrol', yn bodoli yng Nghymru.

Rhai cwestiynau i'w trafod am y ffilm

1. Oedd gan y ffilm ragfarn, naill ai o blaid neu yn erbyn cysylltiadau rhwng y fyddin a phobl ifanc (a'r cadetiau yn benodol)?
2. Ydy'r ffilm wedi newid eich barn an y fyddin, eu gweithgareddau yn cysylltu gyda phobl ifanc, neu â'r cadets yn benodol?
3. Gwrthododd yr Adran Addysg roi cyfweiliad ar gyfer y ffilm a dywedodd y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Lluoedd Arfog eu bod yn fodlon rhoi cyfweiliad ond ni wnaethant. Beth yw effaith hyn ar eich barn amdanynt?
4. Mae'r ffilm yn dadlau nad yw'r cadetiau'n cael eu hannog i ystyried agweddau negyddol ar fywyd yn y lluoedd arfog: nid yw eu hyfforddiant yn dangos effeithiau rhyfel ar bobl, fel y gwelwch chi pan fydd un cadet yn mwynhau ei hyfforddiant saethu ac un arall yn cyffroi o gael cwrdd ag aelodau'r lluoedd arfog oedd yn "gwneud pethau gwyh" fel "mynd ar daith (filwrol)". Mae'r ail gadet yn dweud fod y lluoedd arfog "jyst fel ni: mae gan unrhyw swydd ei hagweddau gwael". Ydych chi'n cytuno? Gweler ein hadroddiadau ar rai o beryglon ac anfanteision ymuno â'r lluoedd arfog, o gyflyrrau iechyd meddwl i'r perygl uwch o lawer o gael eich lladd os ymunwch i'r fyddin yn 16 blwydd oed (y ddau yn Saesneg). (<http://www.forceswatch.net/resources/young-age-army-enlistment-associated-greater-war-zone-risks-analysis-british-army-fataliti>)
5. Mae'r ffilm yn awgrymu bod y cadetiau yn fwy tebygol o ystyried gyrfa yn y lluoedd arfog. Mae'r fyddin yn dweud na ddefnyddir y cadetiau i recriwtio darpar filwyr. Beth ydych chi'n feddwl o hyn?
6. Ydych chi'n gallu gweld unrhyw broblemau ynghlwm â'r bwriad sydd gan y fyddin i gysylltu â'r ifanc er mwyn rhoi argraff gadarnhaol o'r fyddin iddynt - a chreu oedolion fydd yn gefnogol i'r fyddin?
7. Mae'r ffilm yn awgrymu bod Gwerin y Coed yn un opsiwn an-filwrol y gellir ei gynnig i bobl ifanc yn hytrach na'r cadetiau. Ydych chi'n medru meddwl am unrhyw opsiynau eraill?

Am fwy o wybodaeth gefndirol, lawrlwythwch ein pamffled A Ddylir Hyrwyddo'r Fyddin mewn Ysgolion? (yn Saesneg). .

Mwy o wybodaeth ac adnoddau

Mae gweithdy dwyieithog Saesneg-Cymraeg at ddefnydd ysgolion a grwpiau ieuencid ar gael i'w lawrlwytho o wefan ForcesWatch - mae'n hyrwyddo meddwl beirniadol ymysg pobol ifanc ar y materion a godir yn y ffilm. Fel arall, er mwyn gofyn i aelod o dîm ForcesWatch redeg y gweithdy, neu os am dderbyn DVD o'r ffilm, ebostiwch education@forceswatch.net neu ffoniwch 020 7837 2822

Darllenwch adroddiad byr am lansio'r ffilm (yn Saesneg)
(<http://www.forceswatch.net/blog/launch-new-film-military-and-young-people>)

Gwylwch ffilm fer ar y pwnc gan British Forces News (yn Saesneg)
(<http://web202.ssvc.com/news/articles/army/2949>)

Darllenwch fwy am ein hymgyrch Na i'r Fyddin mewn Ysgolion (yn Saesneg)
(<http://www.forceswatch.net/projects/details>)

Cafodd y ffilm ei chyllido'n dorfol gan dros 100 o bobol. Diolch i'r sawl a gefnogodd y prosiect.
(<http://wefund.com/project/young-people-and-the-military-a-documentary/p57343/>)